

Newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim – gwybodaeth gyd-destunol

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim

Mae gan blant a phobl ifanc y mae eu rhieni'n derbyn y taliadau cymorth canlynol hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190. (Cyllid a Thollau EM sy'n gyfrifol am asesu lefel yr incwm blynyddol.)
- Eifen warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith yn parhau – y taliad y gall rhywun ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith
- Y rhai ar y Credyd Cynhwysol (hyd at 31 Mawrth 2019). Mae derbyn y Credyd Cynhwysol wedi bod yn un o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ers mis Medi 2013. Gwnaed hyn fel mesur dros dro¹ er mwyn sicrhau nad oedd teuluoedd a allai fod wedi gallu hawlio prydau ysgol am ddim yn flaenorol o dan y system fudd-daliadau etifeddol ar eu colled yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.
- Y rhai ar y Credyd Cynhwysol gydag incwm net net blynyddol² o £7,400 (o 1 Ebrill 2019 ymlaen).

Yn ogystal, o 1 Ebrill 2019, bydd ein mesurau amddiffyniad wrth bontio yn golygu na fydd unrhyw blentyn yn colli'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol (a thu hwnt i rai plant). Gweler yr adran ar Amddiffyniad wrth bontio ar dudalen 3 am wybodaeth ychwanegol.

Effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled y DU o dan agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU. Mae wedi cael ei gyflwyno i bob hawliwr newydd, a bydd cyfnod prawf a dysgu yn awr ar gyfer hyd at 10,000 o hawlwr budd-daliadau etifeddol sy'n symud i'r Credyd Cynhwysol, a fydd yn cael ei gynnal yng Ngogledd Swydd Efrog. Bydd y Credyd Cynhwysol yn disodli'r budd-daliadau a fyddai wedi

¹ Datganiad Ysgrifenedig - Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 – 16 Awst 2013:

https://llyw.cymru/hysbysiadau/chwilio?keywords=&announcement_type%5B4%5D=4&All_=All&published_after=&published_before=

² Byddai incwm net o enillion gweithwyr cyflogedig ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael eu hystyried. Diffinnir incwm net a enillir fel incwm aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Nid yw'n cynnwys incwm o'r Credyd Cynhwysol na budd-daliadau eraill.

gwneud derbynwyr yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan y system fudd-daliadau etifeddol. Hefyd, bydd yn disodli budd-daliadau na fyddai wedi gwneud derbynwyr yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn flaenorol³.

Os nad ydym yn cyflwyno trothwy enillion, rydym yn amcangyfrif y byddai tua hanner disgyblion Cymru'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn (o gymharu â 16% ym mis Ionawr 2018).

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn bryderus iawn ynglŷn â diffygion sylfaenol y Credyd Cynhwysol ac mae wedi galw am saib yn y broses o'i gyflwyno tan y rhoddir sylw iddynt. Mae hawlwr newydd y Credyd Cynhwysol yn gorfod gofyn am gymorth, mewn rhai achosion, am help gan fanciau bwyd wrth iddynt ddisgwyl am eu taliad cyntaf o'r Credyd Cynhwysol, a all gymryd hyd at bum wythnos neu fwy. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddant yn treialu taliadau amlach, fodd bynnag, nid oes cadarnhad pendant ynghylch amserlenni na phryd fydd hyn ar gael i bob hawlydd.

Y trothwy incwm a enillir a fydd ar waith o fis Ebrill 2019 ymlaen

O 1 Ebrill 2019 byddwn yn cyflwyno trothwy incwm net blynyddol a enillir o £7,400 i asesu cymhwysedd hawlwr y Credyd Cynhwysol ar gyfer prydau ysgol am ddim⁴. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, byddai gan deulu nodweddiadol sy'n ennill tua £7,400 y flwyddyn gyfanswm incwm aelwyd o rhwng £18,000 a £24,000 y flwyddyn ar ôl ystyried y budd-daliadau⁵.

Ein hamcangyfrif canolog diweddaraf yw, yn gyffredinol, y bydd trothwy enillion net blynyddol o £7,400 yn golygu y bydd cynnydd o ryw 3,000 o blant a fydd yn cael budd o brydau ysgol am ddim yng Nghymru erbyn yr amser y caiff y Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn yn 2023-24⁶. Mae hyn yn cynrychioli'r amcangyfrif o newid net ym maint y garfan ac mae'n gymharol â'r nifer amcangyfrifedig o blant a fyddai wedi derbyn prydau ysgol am ddim o dan y system fudd-daliadau y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei disodli. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys effaith amddiffyniad wrth bontio.

³ Y budd-daliadau etifeddol sy'n cael eu disodli gan y Credyd Cynhwysol yw Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, a Budd-dal Tai.

⁴ Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog, yn cyhoeddi cynlluniau Llywodraeth Cymru, ar 6 Rhagfyr 2018:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygio-meini-prawf-cymhwystra-ar-gyfer-prydau-ysgol-am-ddim-o-ganlyniad-i>

⁵ 'Eligibility for free school meals, the early years pupil premium and the free early education entitlement for two-year-olds under Universal Credit, Government Consultation Response' (Mawrth 2018):

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/692644/Government_response_FSM_and_EY_entitlements_under_Universal_Credit.pdf

⁶ Gall ein hamcangyfrifon newid wrth i ddata, rhagolygon economaidd, a modelau dadansoddol gael eu diweddarau.

Amddiffyniad wrth bontio

O dan ein mesurau amddiffyniad wrth bontio, bydd y disgyblion canlynol yn cael eu hamddiffyn rhag colli eu prydau ysgol am ddim:

- O 1 Ebrill 2019 ymlaen, byddai'r holl hawl wyr prydau ysgol am ddim presennol yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tra bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno. Byddai hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad ydynt bellach yn bodloni'r cyfnod meini prawf cymhwysedd (e.e. os yw eu henillion yn codi'n uwch na'r trothwy newydd) yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod hwn.
- Byddai unrhyw ddisgybl sy'n ennill cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar ôl 1 Ebrill 2019 yn cael ei amddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn dal i fod yn wir hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod cyflwyno.
- Yn dilyn cwblhau'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, bydd unrhyw ddisgybl presennol nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd mwyach (e.e. os yw ei riant/rhieni'n ennill mwy na'r trothwy neu nad oes ganddo/ganddynt hawl bellach i gael y Credyd Cynhwysol) yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tan ddiwedd cyfnod addysg presennol eu plentyn (h.y. cynradd neu uwchradd).
- Ni fydd amddiffyniad wrth bontio yn cael ei ymestyn i gynnwys hawl wyr sydd ddim yn derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol, ac sydd felly ddim yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Rydym yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y plant a fydd derbyn amddiffyniad wrth bontio mewn unrhyw flwyddyn yn ystod cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ddegau o filoedd.

Cyllid

Ni ddarparwyd unrhyw arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru i liniaru effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol o dan Lywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim.

Serch hynny, dangosodd [Cyllideb Derfynol 2019-20 Llywodraeth Cymru](#) y bydd £7 miliwn ychwanegol ar gael drwy'r Setliad Llywodraeth Leol yn 2019-20. Bwriad yr arian ychwanegol hwn yw talu'r gost amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â darparu prydau bwyd ar gyfer y nifer ychwanegol o ddisgyblion yr amcangyfrifir y byddant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r trothwy a'r amddiffyniad wrth bontio.